WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o theatrau llawdriniaethau – asesu’r cynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 636A2018-19

Paratowyd y ddogfen fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Fe wnaed y gwaith hwn gan Philip Jones.

# Cynnwys

Mae trefniadau rheoli'n gryfach ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd o ran monitro lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau ond nid yw systemau TG theatrau'n addas ar gyfer y diben felly mae'n anodd cael data defnyddiol ynghylch gweithgarwch a pherfformiad.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 5

Argymhellion 6

Atodiadau

Cynnydd ers ein hargymhellion yn 2014 8

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Dylai gwasanaethau theatrau llawdriniaethau fod yn gost-effeithiol, cyfrannu at ofal o ansawdd da ar gyfer cleifion a chael eu rheoli i helpu'r Bwrdd Iechyd i gyrraedd ei dargedau o ran amseroedd aros. Fodd bynnag, mae defnyddio theatrau'n effeithiol yn ddibynnol iawn ar ffactorau allanol gan gynnwys prosesau cyn llawdriniaeth/ar ôl llawdriniaeth.

2 Yn 2011, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o effeithiolrwydd theatrau llawdriniaethau ledled Cymru. Ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) daethom i'r casgliad, er bod gwella perfformiad theatrau a llawdriniaeth ddydd yn dod yn fwy o flaenoriaeth, bod angen gweithredu ar y cyd i wella ansawdd gwybodaeth theatrau, mynd i'r afael â meysydd lle mae perfformiad yn waeth ac ymateb i bryderon a godwyd gan staff.

3 Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru ystyriaeth i hyn eto yn 2014 ar ôl ceisiadau gan Bwyllgorau Archwilio, swyddogion gweithredol ac eraill a oedd yn cydnabod bod perfformiad theatrau mewn nifer o ardaloedd yn dal i fod o safon israddol. Fe ofynnon ni: A yw'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar ein hargymhellion blaenorol ac yn darparu gwasanaethau theatrau effeithlon o ansawdd uchel?

4 Fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Bwrdd Iechyd mewn adroddiad ym mis Gorffennaf 2014. Daethom i'r casgliad y bu rhai ymdrechion lleol i wella theatrau ond na fu gwelliant sylweddol a bod rhai rhwystrau sylfaenol yn dal i fod. Canfuom fel a ganlyn:

- **gwelwyd rhai gwelliannau ers 2011 ond erys problemau ynglŷn ag effeithlonrwydd gwasanaethau llawfeddygol, defnydd annigonol o ymyriadau diogelwch a rhai safbwyntiau cymysg gan staff:**
  - bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf.
  - er bod ymyriadau diogelwch allweddol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn theatrau, gwelir yn aml na chânt eu defnyddio'n gywir.
- **mae diffyg arweinyddiaeth ganolog a phroblemau mawr o ran data wedi bod yn rhwystrau sylfaenol i wella:**
  - ni roddwyd blaenoriaeth gorfforaethol i theatrau ac mae'r diffyg ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog hyn wedi bod yn rhwystr sylfaenol i wella.
  - ceir problemau mawr o ran data ac mae ymdrechion lleol i ysgogi gwelliant yn dioddef am nad oes digon o wybodaeth safonol ar gael.

5 Fe wnaeth ein hadroddiad yn 2014 nifer o argymhellion ynghylch y canlynol:

- Rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd a briffiadau
- Adrodd ar ddigwyddiadau a dysgu ohonynt
- Lefelau staffio

- Gwybodaeth am berfformiad theatrau
- Ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog

6 Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gynnwys gwaith lleol i dracio cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2014 yn ei Gynllun Archwilio ar gyfer 2018. Dechreuodd y diweddariad hwn ar gynnydd ym mis Chwefror 2018 gan ofyn: **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud digon o gynnydd mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad gwreiddiol?**

7 Wrth gynnal y diweddariad hwn ar gynnydd, fe wnaethom y canlynol:

- anfon hunanasesiad at y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ac a ddychwelwyd atom;
- adolygu nifer o ddogfennau gan gynnwys y rhai a oedd wedi'u hatodi wrth yr hunanasesiad; a hefyd
- cynnal cyfweliadau gyda staff y Bwrdd Iechyd i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.

8 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Ceir gwybodaeth fanylach yn Atodiad 1.

# Ein canfyddiadau

9 Rydym yn dod i'r casgliad bod trefniadau rheoli'n gryfach a bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd o ran monitro lefelau staffio a chymysgedd sgiliau, ond nid yw systemau TG theatrau'n addas ar gyfer y diben felly mae'n anodd cael data defnyddiol ynghylch gweithgarwch a pherfformiad.

10 Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion blaenorol.

Arddangosyn 1: statws argymhellion 2014

| Cyfanswm yr argymhellion | Wedi'u cwblhau | Ar y gweill | Yn hwyr | Wedi'u disodli |
|---|---|---|---|---|
| 9 | 4 | 5 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

11 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion er bod cyflymder y gwelliant yn amrywio:

- Mae methodoleg 'Five Steps to Safer Surgery' yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion wedi cael ei rhoi ar waith ar bob safle. Mae hyn yn cynnwys rhestr wirio ac ôl-drafodaeth Sefydliad Iechyd y Byd.
- canfu archwiliad y Bwrdd Iechyd o restr wirio Sefydliad Iechyd y Byd ym mis Mehefin 2017 raddau amrywiol o gyflawnrwydd ar draws ysbytai a rhwng

timau. Cafodd canlyniadau eu cyflwyno i'r holl safleoedd mewn cyfarfodydd archwilio.

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dangosfwrdd adrodd Datix ym mhob theatr ac mae digwyddiadau'n eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd y fforwm theatrau. Mae tueddiadau'n cael eu hadnabod yn lleol o'r dangosfwrdd Datix a chymerir camau dilynol i fynd i'r afael â'r materion. Mae hyfforddiant ar gyfer staff yn cael ei adnabod ac mae strwythurau wedi cael eu hadolygu lle'r oedd yn briodol.
- mae uwch reolwyr nyrsys yn cynnal adolygiadau blynyddol o lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn erbyn canllawiau'r Gymdeithas dros Ymarfer Amdriniaethol ar gyfer cleifion mewn lleoliad amdriniaethol.
- mae effaith hyfforddiant hwy ar gyfer ymarferwyr adrannau llawdriniaethau wedi cael ei thrafod gyda'r tîm gweithlu corfforaethol. Cafodd lefelau staffio eu hadolygu a'u cynyddu lle'r oedd angen, mae bylchau'n dal i fodoli ac maent yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth hirdymor.
- mae diffygion yn dal i fodoli yng nghadernid a defnyddioldeb gwybodaeth am berfformiad theatrau. Mae cynlluniau ar waith i sefydlu dangosfwrdd perfformiad theatrau.
- y Prif Swyddog Gweithredu yw'r swyddog gweithredol arweiniol dynodedig ar gyfer theatrau llawdriniaethau. Mae trefniadau arwain yn fwy eglur ac yn gryfach yn awr ar safleoedd ysbytai unigol ac ar draws y Gyfarwyddiaeth Gofal wedi'i Drefnu.
- Mae'r Grŵp Gwella Theatrau, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol, bellach yn arwain gwaith i wella trefniadau theatrau. Mae'r grŵp yn dymuno archwilio materion megis amrywiad clinigol a gwerth clinigol. Mae proses drosglwyddo'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys rhai meysydd gwaith sy'n ymwneud â theatrau, megis costau theatrau nad ydynt yn gyflogau. Roedd amodau gorchwyl y Grŵp wrthi'n cael eu hadolygu ar adeg ein gwaith maes.

# Argymhellion

12 Nid yw ein gwaith wedi adnabod unrhyw risgiau sylweddol newydd mewn perthynas â theatrau llawdriniaethau, ac nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion ychwanegol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith. Caiff yr argymhellion hyn eu nodi yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: argymhellion

| Argymhellion yn 2014 sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith | |
|---|---|
| **A2: Adrodd ar ddigwyddiadau a dysgu ohonynt** | |
| a. | Defnyddio siartiau rheolaeth prosesau ystadegol yn rheolaidd er mwyn helpu i ganfod patrymau a thueddiadau o ran adrodd ar ddigwyddiadau. |
| b. | Dylai'r tîm pryderon corfforaethol weithio gyda thimau theatrau o bob safle i gytuno ar gyfres o gamau gweithredu er mwyn ceisio gwella'r adborth a roddir i staff sy'n rhan o ddigwyddiadau ac atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith i ddysgu o ddigwyddiadau. |
| **A3: Lefelau staffio** | |
| a. | Dylai asesiadau o lefelau staffio a gaiff eu cynnal yn gyson o fewn y Bwrdd Iechyd ystyried yn benodol p'un a oes sail i bryderon am brinder staff mewn theatrau ac, os oes angen, dylid cynyddu lefelau staffio er mwyn sicrhau diogelwch. |
| b. | Dylai'r Bwrdd Iechyd gasglu data er mwyn mesur i ba raddau y mae oedi ar y wardiau yn effeithio ar theatrau, er mwyn llywio ystyriaethau ehangach y BI ynglŷn â lefelau staffio wardiau. |
| c. | Dylai pob safle acíwt weithio gydag Adnoddau Dynol i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol er mwyn gwella trefniadau cynllunio olyniaeth o fewn timau theatrau. |
| **A4: Gwybodaeth am berfformiad theatrau** | |
| a. | Fel blaenoriaeth, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnull grŵp, gydag aelodau o'r tîm gweithredol, staff theatr o bob safle a thîm Myrddin, er mwyn cydweithio i gyflawni canlyniad cyffredin, sef sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd dda am berfformiad ar gael yn hawdd a'i bod yn cael ei defnyddio i wella theatrau. |
| **A5: Ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog** | |
| a. | Dylai'r BI gynnull grŵp theatrau proffil uchel ar draws y BI cyfan, a gaiff ei arwain gan arweinydd gweithredol penodol ar gyfer theatrau, a fydd yn sbarduno gwelliannau i theatrau ac yn rhannu gwersi i'w dysgu â'r sefydliad cyfan. |
| b. | Dylid adfer y grwpiau defnyddwyr theatrau hefyd ymhob safle aciwt er mwyn gwella trafodaethau amlddisgyblaethol, ystyried data ar berfformiad ac ysgogi gwelliannau lleol i theatrau. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Cynnydd ers ein hargymhellion yn 2014

Arddangosyn 3: Asesiad o'r cynnydd

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| **A1 Rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd a briffiadau:** | | |
| a. Dylai uwch staff nyrsio a staff meddygol dystio ac asesu'n feirniadol y defnydd a wneir o'r rhestr wirio a'r briffiadau yn rheolaidd. Dylid rhoi adborth adeiladol, er mwyn sicrhau bod manteision yr ymyriadau hyn fel cymhorthion i dimau ac nid dim ond rhestrau gwirio syml yn cael eu hyrwyddo. | Wedi'i gwblhau | Mae methodoleg 'Five Steps to Safer Surgery' yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, sy'n cynnwys rhestr wirio ac ôl-drafodaeth Sefydliad Iechyd y Byd, wedi cael ei rhoi ar waith ar bob safle.<br>Canfu archwiliad y Bwrdd Iechyd o restr wirio Sefydliad Iechyd y Byd (Mehefin 2017) raddau amrywiol o gyflawnrwydd ar draws ysbytai a rhwng timau. Cafodd canlyniadau eu cyflwyno i'r holl safleoedd trwy gyfarfodydd archwilio. Mae'r rhestr wirio wedi'i sefydlu fel rhan annatod o'r broses lawfeddygol, ac mae'r Cyfarwyddwr Clinigol yn cymryd camau dilynol mewn achosion lle na ddefnyddiwyd y rhestr wirio.<br>Mae pob grŵp o staff yn rhan o waith i foderneiddio fformat a therminoleg y rhestr wirio.<br>Mae templedi briffio timau wedi cael eu datblygu, eu treialu a'u rhoi ar waith ar draws pob safle. Bydd y Grŵp Rheolwyr Theatrau'n parhau i adolygu a diweddaru eu cynnwys a'u hymarferoldeb. |
| b. Ystyried defnyddio arfer da sydd ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf lle mae meddygon iau yn cynnal archwiliadau cudd o'r rhestr wirio a'r briffiadau. | Wedi'i gwblhau | Nid yw'r Cyfarwyddwr Clinigol yn cefnogi'r defnydd o archwiliadau cudd.<br>Mae uwch reolwyr nyrsys ar gyfer theatrau'n monitro cydymffurfiaeth â Hanfodion Gofal. Mae'r canfyddiadau'n cael eu trafod mewn fforymau amlddisgyblaethol. Mae'r canlyniadau'n cael eu cymeradwyo'n fisol gan uwch nyrsys. Mae'r Pennaeth Nyrsio'n coladu cynlluniau gweithredu ac adroddiadau.<br>Mae arweinwyr timau ym Mand 7 yn adolygu cydymffurfiaeth â rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd ac mae eu canfyddiadau'n cael eu trafod fel rhan o'r broses briffio timau (gweler hefyd A1a). |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| c. Dylid gofyn i lawfeddygon ac anesthetyddion sydd o blaid y rhestr wirio a'r briffiadau weithio fel pencampwyr i ennyn cefnogaeth eu cydweithwyr. | Wedi'i gwblhau | Mae hyrwyddwyr wedi cael eu sefydlu ar bob safle er ei bod yn aneglur a yw unrhyw rai'n staff meddygol. Staff theatrau, yn hytrach na thimau clinigol, sy'n arwain gweithdrefn y rhestr wirio.<br>Caiff y rhestr wirio ei thrafod yng nghyfarfodydd Gofal wedi'i Drefnu, Rheolwyr Cyflenwi Gwasanaethau, uwch reolwyr nyrsys, a staff theatrau. |
| d. Dylai timau theatrau gydweithio i deilwra'r rhestr wirio er mwyn ei defnyddio yn eu theatrau. Bydd hyn yn helpu i wneud y rhestr yn fwy perthnasol a dylid annog timau i sicrhau bod y rhestr wirio yn gweithio iddynt hwy. | Wedi'i gwblhau | Gweler A1a |

| Argymhelliad | | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | | | |
| **A2** | **Adrodd ar ddigwyddiadau a dysgu ohonynt** | | |
| a. | Defnyddio siartiau rheolaeth prosesau ystadegol yn rheolaidd er mwyn helpu i ganfod patrymau a thueddiadau o ran adrodd ar ddigwyddiadau. | Ar y gweill | Mae prosesau adrodd ar ddigwyddiadau wedi cael eu cryfhau ac maent yn fwy cyson rhwng safleoedd ysbytai.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dangosfwrdd adrodd Datix ym mhob theatr ac mae digwyddiadau’n eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y fforwm theatrau. Adroddir ar dueddiadau lleol a chymerir camau i fynd i’r afael â’r materion. Er enghraifft, mae anghenion hyfforddi staff wedi cael eu hadnabod ac mae strwythurau wedi cael eu hadolygu lle’r oedd yn briodol.<br>Mae anghysonderau o ran adrodd ar ddigwyddiadau wedi cael eu hadnabod a’u newid, sy’n ei gwneud yn bosibl cymharu gwybodaeth yn fwy cywir rhwng safleoedd. Er enghraifft roedd Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn cynnwys, yn ddiangen, achosion o ganslo mewn theatrau. Rhoddwyd y gorau i wneud hyn.<br>Mae digwyddiadau difrifol yn mynd trwy broses gynhwysfawr o ddadansoddi’r achos sylfaenol, eu datrys, a rhoi cymeradwyaeth ffurfiol.<br>Mae cofnodion y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gwasanaethau Acíwt o fis Tachwedd 2017 yn dangos bod timau cyfarwyddiaethau’n mynd ati’n gyson i fonitro adroddiadau ar ddigwyddiadau yn Datix i sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi’n gywir. |

| Argymhelliad | | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | | | |
| **A2** | **Adrodd ar ddigwyddiadau a dysgu ohonynt** | | |
| a. | Defnyddio siartiau rheolaeth prosesau ystadegol yn rheolaidd er mwyn helpu i ganfod patrymau a thueddiadau o ran adrodd ar ddigwyddiadau. | Ar y gweill | Fodd bynnag, er ein bod wedi nodi peth cynnydd, roedd nifer y digwyddiadau a oedd yn hwyr ym mhob cam adolygu yn dal yn uchel:<br>• Wedi'i atal am y tro, yn disgwyl am adolygiad – 381 o gofnodion, yr oedd 244 ohonynt yn hwyr<br>• Yn cael ei adolygu – 701 o gofnodion, yr oedd 626 ohonynt yn hwyr<br>• Yn disgwyl am gymeradwyaeth derfynol – 435 o gofnodion, yr oedd 379 ohonynt yn hwyr<br>• Cymeradwyaeth derfynol wedi'i rhoi – 5,447 o gofnodion<br>Roedd cofnodion cyfarfod Llywodraethu'r Gyfarwyddiaeth Gofal wedi'i Drefnu o fis Hydref 2017 yn nodi bod rhai uwch nyrsys wedi cau cofnodion digwyddiadau yn Datix heb gwblhau'r ffurflen gau gyfatebol ar gyfer ymchwiliad i ddigwyddiad. Mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn.<br>Mae rheolwr gwasanaethau dynodedig wedi cael ei benodi i weithredu Safonau Diogelwch Cenedlaethol ar gyfer Gweithdrefnau Ymyrrol a Safonau Llawfeddygol Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Ymyrrol. Mae'r holl grwpiau o staff yn ymgysylltu â'r gwaith ac mae'r Tîm Sicrwydd, Diogelwch a Gwella'n rhoi cymorth ychwanegol. Gallai hyn gryfhau arferion adrodd ar ddigwyddiadau a'u datrys ymhellach, ac mae cynlluniau i estyn y gwaith hwn i ofal critigol ac endosgopi.<br>Mae byrddau iechyd yn rhannu digwyddiadau clinigol yng nghyfarfodydd Rheolwyr Theatrau Cymru Gyfan, ac adroddir yn ôl ar eu casgliadau wrth Fforwm Rheolwyr Theatrau'r Bwrdd Iechyd. |

| Argymhelliad | | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| b. | Dylai'r tîm pryderon corfforaethol weithio gyda thimau theatrau o bob safle i gytuno ar gyfres o gamau gweithredu er mwyn ceisio gwella'r adborth a roddir i staff sy'n rhan o ddigwyddiadau ac atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith i ddysgu o ddigwyddiadau. | Ar y gweill | Gweler A2a. |

| Argymhelliad | | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | | | |
| **A3 Lefelau staffio** | | | |
| a. | Dylai asesiadau o lefelau staffio a gaiff eu cynnal yn gyson o fewn y Bwrdd Iechyd ystyried yn benodol p'un a oes sail i bryderon am brinder staff mewn theatrau ac, os oes angen, dylid cynyddu lefelau staffio er mwyn sicrhau diogelwch. | Ar y gweill | Mae lefelau staffio theatrau’n cael eu hasesu ac yn cael sylw mewn nifer o ffyrdd.<br>Mae problemau recriwtio a chadw’n cael eu dwyn i sylw tîm rheoli’r gweithlu yn y Bwrdd Iechyd, sy’n cynnig cymorth i fynd i’r afael â’r materion.<br>Mae uwch reolwyr nyrsys yn gweithio gyda staff recriwtio corfforaethol i helpu i hyrwyddo’r rolau sy’n cael eu hysbysebu. Dywedodd staff fod y gwaith hwn yn gryn her ac yn mynd ag amser.<br>Mae uwch reolwyr nyrsys yn cynnal adolygiadau blynyddol o lefelau staffio a chymysgedd sgiliau yn erbyn canllawiau’r Gymdeithas dros Ymarfer Amdriniaethol ar gyfer cleifion mewn lleoliad amdriniaethol.<br>Mae effaith cyfnod hyfforddi hwy ar gyfer ymarferwyr mewn adrannau llawdriniaethau wedi cael ei thrafod gyda’r tîm gweithlu corfforaethol. Er bod lefelau staffio wedi cael eu hadolygu a’u cynyddu lle’r oedd angen, mae bylchau’n dal i fodoli ac maent yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth hirdymor.<br>Mae e-amserlennu wedi mynd yn fyw yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, Ysbyty Cyffredinol Glangwili ac Ysbyty Cyffredinol y Tywysog Philip. Ar adeg yr adolygiad hwn roedd y system ar fin cael ei chyflwyno yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais.<br>Mae uwch reolwyr nyrsys yn defnyddio adolygiadau misol o’r gyllideb i chwilio am gyfleoedd i uwchfandio staff presennol ac i ddefnyddio’r sefydliad presennol mor effeithiol â phosibl.<br>Mae’r cynllun gweithredu ar gyfer rheoli a datblygu’r gweithlu’n cynnwys adolygiad llawn o’r sefydliad a’r proffil sgiliau. Fe alluogodd hyn y Bwrdd Iechyd i ddatblygu prif broffil staffio. Mae’r timau Adnoddau Dynol a Rheoli Theatrau’n cynnal adolygiadau misol o salwch i adnabod patrymau salwch.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd yn archwilio’r potensial i ddatblygu ac estyn sgiliau a rolau staff iau. Er enghraifft, mae’r rôl swydd staff sgwrio Band 3-4 wedi cael ei datblygu a’i chyflwyno. |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|
| **Adnoddau** | | |
| **A3 Lefelau staffio** | | |
| b. Dylai'r Bwrdd Iechyd gasglu data er mwyn mesur i ba raddau y mae oedi ar y wardiau yn effeithio ar theatrau, er mwyn llywio ystyriaethau ehangach y Bwrdd Iechyd ynglŷn â lefelau staffio wardiau. | Ar y gweill | Mae staff yn defnyddio Myrddin i gofnodi gwybodaeth leol am oedi mewn theatrau. Fodd bynnag, nid yw’r system yn ddigon soffistigedig i adnabod effaith oedi ar wardiau a’r rhesymau drosto. Mae’r Grŵp Trawsnewid Theatrau’n gweithio i wella’r modd yr adroddir ar yr wybodaeth hon a’r defnydd ohoni. Mae hyn yn cynnwys datblygu dangosfwrdd TG ar gyfer theatrau.<br>Mae staff Cyflenwi Gwasanaethau mewn Theatrau’n aelodau o Grŵp Rhwydweithio TG Cymru Gyfan. |
| c. Dylai pob safle acíwt weithio gydag Adnoddau Dynol i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol er mwyn gwella trefniadau cynllunio olyniaeth o fewn timau theatrau. | Ar y gweill | Nid oes cynllun gweithredu corfforaethol ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y sefyllfa, ac mae’n cymryd nifer o gamau i fynd i’r afael â hi:<br>• mae pob safle wedi mapio’r gofynion ailgofrestru ar gyfer staff nyrsio;<br>• mae addysgwyr nyrsys wedi cael eu penodi a’u lleoli ym mhob uned i roi cymorth gydag uwchsgilio a datblygiad gyrfa;<br>• mae uwch reolwyr nyrsys yn gweithio gyda thimau recriwtio corfforaethol i hyrwyddo recriwtio a gwneud rolau’n fwy deniadol (gweler hefyd A3a).<br>• mae adolygiad o gyflog newidiol yn erbyn swyddi gwag yn mynd rhagddo; ac<br>• mae staff yn rhan o’r broses recriwtio gan gynnwys cyfranogi mewn digwyddiadau recriwtio. |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| **Adnoddau** | | |
| **A4: Gwybodaeth am berfformiad theatrau** | | |
| Fel blaenoriaeth, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnull grŵp, gydag aelodau o'r tîm gweithredol, staff theatr o bob safle a thîm Myrddin, er mwyn cydweithio i gyflawni canlyniad cyffredin, sef sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd dda am berfformiad ar gael yn hawdd a'i bod yn cael ei defnyddio i wella theatrau. | Ar y gweill | Mae systemau TG theatrau'n dal i beidio â bod yn addas ar gyfer y diben a dywedodd staff fod y sefyllfa gyfredol yn hynod anfoddhaol. Mae'n anodd cael data cadarn a defnyddiol ynghylch gweithgarwch a pherfformiad, ac er y bu ymdrechion i wella'r sefyllfa, araf fu'r cynnydd.<br>Mae perthynas dda rhwng staff theatrau a'r tîm gwybodeg. Mae Theatre Schedule Live wedi cael ei lanlwytho ar system IRIS ar draws y Bwrdd Iechyd, gyda system goleuadau traffig i amlygu sesiynau nas defnyddir. Fodd bynnag, dywedodd staff theatrau wrthym ei fod yn cynnwys diffygion niferus. Mae'r system yn araf ac ni ellir ei defnyddio ar gyfer adroddiadau mewn amser real. Mae'n well gan staff fynd i mewn i theatrau i weld beth sy'n digwydd yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth a gynhyrchir gan y system. Hefyd, nid yw'n darparu'r wybodaeth am dueddiadau sy'n hanfodol er mwyn arddangos gwelliannau mewn gwasanaethau.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Fodd bynnag, roedd staff yn feirniadol o Fodiwl Theatrau Myrddin. Yn arbennig, bod 'patsys' a addawyd ar gyfer y system yn cymryd amser hir i'w datblygu neu nad ydynt yn cael eu datblygu o gwbl.<br>Mae'r Grŵp Trawsnewid Theatrau wedi paratoi cynllun gweithredu i wella codau, amser dechrau a gorffen gweithgareddau ac ati. Fodd bynnag, dywedodd uwch aelodau o staff y bydd heriau sylweddol i gyflawni'r gwaith hwn.<br>Roedd templed ar gyfer dangosfwrdd theatrau i fod i gael ei gwblhau ym mis Medi 2017. Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd y dangosfwrdd ar fin cael ei osod yn IRIS. Nid oes data ystyrlon ynghylch llawdriniaethau a ganslwyd er y gobeithir y bydd y dangosfwrdd yn mynd i'r afael â hynny. |

| Argymhelliad | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| | | Pwysleisiodd staff fod ganddynt ddarlun clir o lwytho rhestrau theatrau ar draws safleoedd y pedwar prif ysbyty, er gwaethaf diffygion systemau TG. Maent yn cynnal adolygiadau o lwytho rhestrau bob dydd Mawrth.<br>Mae uwch reolwyr o fewn y Gyfarwyddiaeth Gofal wedi'i Drefnu yn cwrdd yn aml i drafod yr wybodaeth sydd ar gael. Mae uwch nyrsys wedi trafod yr angen i fwydo i mewn i'r gwaith ar y Dangosfwrdd Ansawdd a Diogelwch a arweinir gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol. Maent yn ystyried y potensial ar gyfer elfen bwrpasol ar gyfer theatrau. |

| Argymhelliad | | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | | | |
| **A5: Ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog** | | | |
| a. | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnull grŵp theatrau proffil uchel ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan, a gaiff ei arwain gan arweinydd gweithredol penodol ar gyfer theatrau, a fydd yn sbarduno gwelliannau i theatrau ac yn rhannu gwersi i'w dysgu â'r sefydliad cyfan. | Ar y gweill | Y Prif Swyddog Gweithredol yw’r swyddog gweithredol arweiniol dynodedig ar gyfer theatrau llawdriniaethau, ac mae’n meddu ar ddealltwriaeth glir am yr heriau ar hyn o bryd. Mae trefniadau arwain y Gyfarwyddiaeth Gofal wedi’u Drefnu a safleoedd ysbytai’n llawer cliriach a chryfach yn awr.<br>Mae’r Grŵp Gwella Theatrau’n arwain gwaith i wella trefniadau theatrau, ac mae’n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol. Mae’r Grŵp yn bwriadu archwilio materion megis amrywiad clinigol a gwerth clinigol. Mae proses drosglwyddo’r Bwrdd Iechyd yn cynnwys nifer o feysydd gwaith sy’n ymwneud â theatrau, megis costau theatrau nad ydynt yn gyflogau. Roedd amodau gorchwyl y Grŵp wrthi’n cael eu hadolygu ar adeg ein gwaith maes.<br>Mae lefelau uchel o staffio meddygol dros dro ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae nifer o swyddi gwag yn bodoli ar unrhyw adeg benodol. O ganlyniad, mae staff locwm yn cael eu gwthio at ben uchaf eu cynhyrchiant. Mae hyn yn her arbennig iddynt hwy yn niffyg gweithlu parhaol i roi cymorth.<br>Mae’r Gyfarwyddiaeth yn gweithio i feithrin timau cryfach, ond mae timau dros dro yn gwneud hynny’n llawer anos i’w gyflawni. O ganlyniad, mae hefyd yn anos ysgogi newidiadau mewn theatrau. Mae staff yn cydnabod bod llawer i’w wneud o hyd i wella cynhyrchiant theatrau. |

| Argymhelliad | | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | | | |
| **R5: Ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog** | | | |
| b. | Dylid adfer y grwpiau defnyddwyr theatrau hefyd ymhob safle acíwt er mwyn gwella trafodaethau amlddisgyblaethol, ystyried data ar berfformiad ac ysgogi gwelliannau lleol i theatrau. | Ar y gweill | Mae penodiad Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau, uwch reolwyr nyrsys a rheolwyr cymorth yn helpu i ysgogi gwelliant.<br>Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd y dangosfwrdd theatrau'n galluogi grwpiau defnyddwyr theatrau i lunio, monitro a chymharu set gyson o ddata ar berfformiad.<br>Fodd bynnag, mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y grŵp defnyddwyr theatrau'n dal i fod yn her, ac mae cynrychiolaeth feddygol yn isel.<br>Mae'r Gyfarwyddiaeth yn canolbwyntio ar roi sylw i'r materion hanesyddol sydd wedi effeithio'n sylweddol ar ddiwylliant gwasanaethau theatrau yn Ysbyty Bronglais. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi mynegi ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i wella trefniadau ar y safle hwnnw, a bydd agor swît newydd o theatrau ym mis Mehefin 2018 yn gwella'r amgylchedd ar gyfer staff a chleifion yn sylweddol.<br>Mae uwch aelodau o'r Tîm Gofal wedi'i Drefnu yn ymrwymedig iawn i weithio gyda staff theatrau yn Ysbyty Bronglais, ac yn enwedig i ddatrys materion sy'n dal i fodoli ers cyflwyno'r system gyflogau genedlaethol Agenda ar gyfer Newid. Mae Tîm Datblygu Sefydliadol y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda staff theatrau ym Mronglais i ystyried diwylliant ac arweinyddiaeth. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru